
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 807 (Cy. 183)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun
i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws
Cefnffordd a Thynnu Statws
Cefnffordd Ffordd Gyswllt
Chimneys, Sir Benfro) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Bydd y Gorchymyn hwn yn rhoi statws cefnffordd ac yn tynnu statws cefnffordd rhannau o gefnffordd yr A487 ar Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun, gan fod Cyngor Sir Penfro wedi adeiladu ffordd gyswllt newydd Ffordd yr Efail.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 807 (Cy. 183)

PRIFFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun
i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws
Cefnffordd a Thynnu Statws
Cefnffordd Ffordd Gyswllt
Chimneys, Sir Benfro) 2022**

Gwnaed 12 Gorffennaf 2022

Yn dod i rym 22 Gorffennaf 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022 a daw i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

- (i) ystyr “ffordd ddsbarthiadol” (“*classified road*”), fel dosbarthiad i briffordd, yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddiben deddfiadau ac offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir yn brif ffyrdd a'i bod hefyd yn ffordd ddsbarthiadol at ddiben pob deddfiad ac offeryn arall sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru ac

(1) 1980 p. 66: diwygiwyd adran 10(2) gan adran 22(2)(a) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad yn brif ffyrdd;

- (ii) ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WG20 ac sydd wedi ei farcio “Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Rhoi Statws Cefnffordd a Thynnu Statws Cefnffordd Ffordd Gyswllt Chimneys, Sir Benfro) 2022”, wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA1452133) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;
- (iii) ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487).

Priffyrdd sydd i ddod yn gefnffyrdd

3. Bydd y priffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ar y plan a adneuwyd, yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

4. Nodir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

Darnau o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd

5. Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Penfro am hyn, ac wedi hynny, Cyngor Sir Penfro fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o ffordd.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig: 12 Gorffennaf 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Llwybr tua 231 o fetrau o hyd yn Abergwaun yn Sir Benfro sy'n dechrau o ganolbwynt y gyffordd rhwng Heol Fawr yr A40 i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar ddarn o briffordd yr A487 a elwir yn Ffordd yr Efail hyd at ganolbwynt ei chyffordd ag y Wesh yr A487, Abergwaun, a ddangosir â llinell ddu drom ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 2

DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Darn tua 1066 o fetrau o hyd o gefnffordd bresennol yr A487 ar Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun yn Sir Benfro, sy'n dechrau o bwynt 8 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd rhwng y Wesh yr A487 a Ffordd yr Efail yr A487 hyd at ganolbwynt cangen ddwyreiniol Cylchfan Windyhall yr A487 a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adnewyd.